COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 24AIN O EBRILL 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 PM

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Rhian Evans, Philip Williams, Arwel Davies, Rhin Jones, Manon Davies, Bari Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU:
Cynghorydd Ian Evans ynghyd ar PCSO Gareth Armstrong.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim.

4. TRAFODAETH GYDA CHYNRYCHIOLYDD LLEOL O'R HEDDLU GOGLEDD CYMRU, PCSO GARETH ARMSTRONG O'R ORSAF HEDDLU YN NINBYCH.
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth PCSO Gareth Armstrong am fethu mynychu'r cyfarfod. Derbyniwyd gwybodaeth yn y cyfarfod fod yna broblem gyda'r tenantiaid 9 Maes-y-Felin a phenderfynwyd tynnu sylw'r Swyddog at y mater.

5. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.
A. Derbyniwyd cais am lenwi'r sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor, sef, Mrs Helen Jones, Pen-y-Gerddi, Peniel. Penderfynwyd cyfethol Mrs Jones yn aelod o'r Cyngor.
B. Derbyniwyd ymddiswyddiad Geraint Jones fel aelod o'r Cyngor ac mi fydd y Clerc yn hysbysu'r sedd was trwy Gyngor Sir Ddinbych.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Nodwyd y Clerc tri gair sydd eisiau eu cywiro ar y prif gofnodion.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
Dim materion yn codi.

8. YMATEBION CYNGOR SIR DDINBYCH I'R MATERION FFYRDD Y GYMUNED.
A: Mae'r twll yn y ffordd wrth yr Hen Vicarage yn Llanrhaeadr wedi ei thrwsio.
B. Mi fydd y Cyngor Sir Ddinbych yn Glanhau'r cerrig ac yn y blaen o'r geg y bont afon yn stad Bod Afon yn Llanrhaeadr.
C. Mi fydd y Cyngor Sir yn atgyweirio haearn sydd wedi ei thorri ar grid gwartheg priffordd wrth Hafoty Du yn Saron - mi fydd grid gwartheg newydd ar y safle ar ôl i'r contractwyr symud y coed o'r safle.
D. Ffordd Saron i Nantglyn yn cael gwaith Cynnal Ffordd diwedd mis Mai 2023.
E. Nid mae'r Cyngor wedi symud y goeden ar y Llwybr Ceffylau rhwng ffermydd Lôn a Thŷ Cerrig ym Mhrion.

9. BAND EANG YN Y GYMUNED.
Dosbarthwyd Y Cynghorwyr Manon Davies a Rhian Jones gopi o'r llythyrau i'r ardal wledig Saron/Prion a Peniel a dderbyniwyd gan Mr Philip Burrows adroddiad ysgrifenedig Cymraeg gyda'r rhestr o'r "Safleoedd Gwyn" am gymorth y Cyngor Cymuned i ddosbarthu'r adroddiad iddynt.

## 10. HWYLUSYDD TAI GWLEDIG.

Mar Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin methu penderfynu prun o'r ddau fudiad sydd yn gyfrifol am gael "Hwylusydd Tai Gwledig" dros Gyngor Cymuned Llanrhaeadr. Cytunodd Y Cynghorydd Ceri Davies edrych i mewn i'r mater.

## 11. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.

Dosbarthwyd y Clerc rhestr "Sesiynau Hyfforddiant Mis Mai 2023 Un Llais Cymru" at Aelodau'r Cyngor Cymuned.

## 12. MATERION CYLLID.

A: Datganiad Banc £15,786.05.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. HM Revenue & Customs - PAYE am y tri mis yn diweddu 31ain o Fawrth 2023 £125.60.
2. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor £20.00.
3. Ffi Bank misol HSBC £5.00.
4. BHIB – Polisi Blynyddol Yswiriant y cyngor £569.08.

## 13. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Dim.

## 14. GOHEBIAETH ERAILL A DDAW I LAW ERBYN NOSON Y CYFARFOD.

A: Derbyniwyd e-bost yn diolch am gymhorthdal y Cyngor am £500.00 oddi wrth Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.

B. Mar Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno bod y panel yn y safle bws wrth yr Eglwys, Llanrhaeadr yn gallu cael eu newid.

C. Derbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych y Rhestr derfynol safleoedd "Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt 2023.

## 15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Elfed Williams i'r canlynol:-

A: Mae yna bin ysbwriel newydd wedi cael ei osod wrth Loches Bws Y King's Head yn Llanrhaeadr.

B. Mae'r Cyngor Sir wedi cychwyn bwrw dros safleoedd tir adeiladu tai yn yr "Cynllun Ddatblygu Lleol" Sir Ddinbych.

C. Wedi trefnu cyfarfod safle ar gyfer 26ain o Ebrill 2023 i gytuno estyniad arwydd 30 filltir yr awr (Ochr Rhuthun) ar yr A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr.

D. Enw'r datblygiad stad newydd ym Mhentre' fydd "Maes Cinmeirch".

## 16. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Dwr yn cynilo ar y ffordd rhwng Y Bwlch a Tan-yr-Allt ym Mhrion.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych dal ddim wedi cysylltu ar berchnogaeth safle Cae'r Mynydd ar gyn Eglwys Prion yn torri'r amodau cynllunio. - dal i ddisgwyl ymatebion y Cyngor Sir.

## 17. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR - NOS LUN 22AIN O FAI 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.